CYNGOR CYMUNED LLANFAIR MATHAFARN EITHAF

COFNODION o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd yn Neuadd Goffa Goronwy Owen, Benllech ar Nos Lun, 26 Hydref, 2015 am 7.00 o'r gloch.

PRESENNOL Mr R O Jones, (Cadeirydd), (Benllech A), Mr J Cotterell, (Benllech A), Ms G M Davies, (Benllech A), Mr P Day, (Benllech B), Mrs W Owen, (Llanbedrgoch), Mrs J Peers, (Llanbedrgoch), Mrs D Roberts, (Benllech B), Mr I Williams, (Benllech B), Miss N Williams, (Benllech B).

94 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y canlynol :- Mr K F Griffiths, (Benllech A), Mr G Harker-Roberts, (Brynteg).

95 COFNODION.

Llofnododd y Cadeirydd Gofnodion Gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 28 Medi, 2015.

LLWYBRAU, FFYRDD A PHALMENTYDD

96 MATERION PRIFFYRDD AMRYWIOL.

Adroddwyd gan aelodau – amrywiol faterion a oedd angen sylw.

GOHEBIAETH

97 SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU – TREFN NEWYDD.

Cyflwynwyd er gwybodaeth - llythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn hysbysu mai ef fydd yr Archwilydd statudol am y tair blynedd o 2015/16 ac y bydd yn dirprwyo'r gwaith i gwmni BDO LLP o Southampton.

98 UN LLAIS CYMRU - PWYLLGOR ARDAL YNYS MÔN .

Cyflwynwyd er gwybodaeth - cofnodion o Bwyllgor Ardal Ynys Môn a gynhaliwyd ar y 22 o Orffennaf 2015 yn Neuadd y Sir, Cyngor Tref Llangefni.

99 UN LLAIS CYMRU - PWYLLGOR ARDAL YNYS MÔN.

Cyflwynwyd er gwybodaeth - cofnodion o Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol Pwyllgor Ardal Ynys Môn a gynhaliwyd ar y 22 o Orffennaf 2015 yn Neuadd y Sir, Cyngor Tref Llangefni.

100 FFORWM GYNLLUNIO YNYS MÔN - NODYN O GYFARFOD.

Cyflwynwyd er gwybodaeth - nodyn o gyfarfod o'r Fforwm Gynllunio a gynhaliwyd ar y 13 o Dachwedd 2014 yn Swyddfeydd Cyngor Sir Ynys Môn yn Llangefni.

101 CYNGOR SIR YNYS MÔN - FFORWM GYNLLUNIO.

Cyflwynwyd er gwybodaeth - llythyr gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd yn hysbysu bydd cyfarfodydd o'r Fforwm Gynllunio yn dod i ben oherwydd diffyg diddordeb a phresenoldeb isel mewn cyfarfodydd. Yn ogystal roedd y Cyfarfod o'r Fforwm a drefnwyd ar gyfer yr 8 o Hydref 2015 wedi ei ohirio.

BILIAU A CHYFRIFON

102 BILIAU

PENDERFYNWYD - talu'r biliau a ganlyn :-

Edwards Accounting	Paratoi gwybodaeth	£30-00
Eira Fôn Parry	Gwasanaeth Cyfieithu	£50-00
Lingo Cyf	Hurio offer cyfieithu	£36-00
L.I.T.E.	Goleuadau Nadolig	£594-00
Graham Harker-Roberts	Ad-daliad bil Namesco	£92-88
Hefin Thomas Agri-Contractors	Glanhau cwterydd	£108-00

103 CYFRIFON

Cyflwynwyd - cyfrif yn dangos manylion y taliadau a wnaethpwyd gan y Clerc (yn cynnwys taliadau o dan Gynllun Dirprwyo cyfredol y Cyngor) ym Medi, 2015.

PENDERFYNWYD – nodi'r cyfrif a chymeradwyo'r taliadau.

104 CYLLIDEB Y CYNGOR

Cyflwynwyd - manylion o dderbyniadau a gwariant y Cyngor i gymharu â'i gyllideb am y cyfnod o Ebrill 1, 2015 i ddiwedd mis Medi, 2015.

PENDERFYNWYD – nodi a chymeradwyo'r manylion.

MATERION CYFFREDINOL

105 GRŴP CHWARAE BENLLECH.

Cyflwynwyd - llythyr gan arweinydd Grŵp Chwarae Benllech yn ceisio cymorth gan y Cyngor Cymuned tuag at gael mainc neu fwrdd picnic i ddefnydd y Grŵp Chwarae ac yn achlysurol yr Ysgol Feithrin ac Ysgol Goronwy Owen.

PENDERFYNWYD - gwneud rhodd ariannol o £200 tuag at y gost, ond gadael y dewis offer i'r Grŵp Chwarae.

106 EISTEDDFOD GENEDLAETHOL MÔN 2017.

Trafodwyd ymweliad y Brifwyl a Môn yn 2017 ac yn benodol cyfraniad y Cyngor Cymuned tuag at Apêl casglu arian o fewn dalgylch y Cyngor. Pan ymwelodd y Brifwyl yn 1983 rhoddwyd £600 tuag at yr apêl a rhoddwyd £3500 tuag at Eisteddfod 1999. Mae targed cyfredol ariannol Llanfair Mathafarn Eithaf yn £20,000.

PENDERFYNWYD - gan fod yr apêl bresennol yn ymestyn dros dair blynedd ariannol, sef, 2015/16, 2016/17, a 2017/18 gwneud rhodd o £1000 ymhob blwyddyn. Yn 2017/18 adolygu'r sefyllfa, ac os yw'r swm casgled yn fyr yna ystyried rhoi rhodd ychwanegol.

107 TELEDU CYLCH CYFYNG - DAMWAIN YM MAES PARCIO'R SGWÂR.

Tynnwyd sylw'r aelodau at ddamwain car a ddigwyddodd ym maes parcio'r Sgwâr pan oedd y perchennog a'i deulu yn cael pryd o fwyd ym mwyty'r "Coast". Pan ddychwelodd y perchennog i'w fodur gwelodd fod niwed sylweddol i ochr y gyrrwr er mai un car yn unig oedd yn y maes parcio.

Gwelodd fod camera Teledu Cylch Cyfyng yn pwyntio tuag at ei fodur ac aeth i Orsaf yr Heddlu i Fenllech a'i chael ar gau. Aeth yn ei flaen i

Orsaf yr Heddlu yn Llangefni oedd hefyd ar gau ac yna i Orsaf yr Heddlu yng Nghaergybi lle cyfeiriwyd ef at Gyngor Sir Môn yn Llangefni a oedd yn rheoli Teledu Cylch Cyfyng yr Ynys drwy rwydwaith Trefi Môn. Yno cafodd wybod nad oedd Cyngor Cymuned ym Menllech ond cafodd ei gyfeirio at Gyngor Cymuned Pentraeth a wnaeth roi cyfeiriad e-bost Clerc Llanfair M.E. iddo.

Eglurwyd fod trefn rheoli'r sustem yn wahanol i sustem Trefi Mon gan fod yr offer wedi ei leoli yn Orsaf yr Heddlu Benllech. Ymhen peth amser cafwyd mynediad i'r darluniau Teledu Cylch Cyfyng ond yn anffodus nid oedd safon y darluniau yn ddigon eglur i roi dangosiad o wneuthuriad na rhif y modur a wnaeth y difrod.

CYNLLUNIO

108 CEISIADAU

PENDERFYNWYD ar y ceisiadau cynllunio o flaen y Cyngor fel a ganlyn:-

1. Caniatáu

30C302M	Plas Glanrafon Hotel, Benllech
30C402B	Eugrad, Brynteg
30C614B	Willoway, Ffordd Cynlas, Benllech
30C785	Tynygongl Farm, Tynygongl
30C302N/AD/ENF	Plas Glanrafon Hotel, Benllech

30C246F/VA	Tyn Pwll, Tynygongl - cred yr aelodau fod y tair blynedd wreiddiol a ganiatawyd ym Mai 2013 yn ddigonol i gyflwyno'r materion a gadwyd yn ôl.
30C106	Bryn Rhyd, Llanbedrgoch – mae'r cais yma yn ymdrech i hwyluso parcio drws nesaf, sef, Cartrefle, Llanbedrgoch. Cafwyd cais i adeiladu annedd newydd yn Cartrefle fis diwethaf (30C775A) a wrthodwyd ganddom ar sail pryderon trafnidiaeth o'r safle i lon gul.
30C779A	56 Maes Llydan, Benllech - mae'r cais yn cael ei wrthod gan fod y bwriadau

	allan o gymeriad ac anheddau cyfagos.
30C348D/DEL	The Warehouse, Benllech – gwrthodir ar sail diogelu preifatrwydd cymdogion.

(Datganodd Mr I Williams ddiddordeb yng nghais Rhif 30C302M ac nid oedd yn bresennol yn ystod y trafodaethau a'r pleidleisio ar yr eitem)

109 PENDERFYNIADAU

Adroddwyd er gwybodaeth - penderfyniadau cynllunio diweddar Gyngor Sir Ynys Môn.

Terfynwyd y Cyfarfod am 7-40 yr hwyr.